**Polisi Absenoldeb Rhieniol Siambrau Angel**

1. Pwrpas y polisi hwn yw gosod rheoliadau'r siambrau mewnol sy'n rheoli'r broses o gymryd "Absenoldeb Rhieniol" gan aelod o'r siambrau.

2.**DIFFINIAD**

Cyfeiria "Absenoldeb Rhieniol" at gyfnod a gymerir gan brif ofalwr plentyn yn dilyn geni neu fabwysiadu. Gallai fod yn fam, yn dad neu'n rhiant mabwysiadu.

3. Nod y polisi hwn yw:

- annog unigolion sy'n dilyn cyfnod rhieniol i ddychwelyd i'r siambrau a pharhau i adeiladu arferion llwyddiannus
- atal gwahaniaethu ar sail cyfrifoldeb rhieniol
- annog a chefnogi unigolion sy'n cymryd amser i ffwrdd yn dilyn geni neu fabwysiadu plentyn heb iddynt ddioddef caledi ariannol
- cydymffurfio â gofynion Cod Ymddygiad y Bar a'r Canllawiau sy'n cydfynd â nhw

4. Caiff y polisi hwn ei gylchredeg i bob aelod o'r siambrau a'i glercod y mae'n ofynnol iddynt:

- ddarllen a deall y polisi a
- deall eu rôl mewn perthynas â'r polisi.

5.**ABSENOLDEB RHIENIOL**

Mae gan bob aelod o'r siambrau hawl i ddychwelyd i'r siambrau o fewn cyfnod o un flwyddyn ar ôl geni neu fabwysiadu eu plentyn lle nhw yw'r prif ofalwr.

6. Mae gan aelod o'r siambrau sy'n cymryd cyfnod o absenoldeb rhieniol hawl i gyfnod o chwe mis ac yn ystod y cyfnod hwnnw, ni fydd angen iddynt dalu elfen Ffi Sefydlog ffioedd gweinyddol misol y Siambrau. Mae'r cyfnod 6 mis hwnnw'n berthnasol ni waeth a ydy unigolyn yn cymryd cyfnod hwy o absenoldeb rhieniol ai peidio.

7. Mae'n ofynnol i aelodau'r siambrau roi gwybod i bwyllgor gwaith y siambrau am eu bwriad i gymryd cyfnod o absenoldeb rhieniol heb fod yn

llai na deufis cyn cychwyn y cyfnod absenoldeb gan ddynodi'r dyddiad cychwyn amcanol a'r dyddiad dychwelyd tebygol.

8. Os bydd aelod o'r siambrau'n dymuno cymryd mwy na 6 mis o absenoldeb rhieniol, dylai ef neu hi roi gwybod i bwyllgor gwaith y siambrau bythefnos cyn diwedd y cyfnod hwnnw'n datgan y dyddiad tybiedig y mae ef neu hi'n bwriadu dychwelyd.

9. Os bydd aelod yn dymuno cymryd absenoldeb am gyfnod o hwy na 12 mis, dylid trefnu hyn gyda phwyllgor gwaith y siambrau.

10. Os bydd aelod yn absennol o'r siambrau am fwy na 12 mis heb gytuno estyniad gyda phwyllgor gwaith y siambrau, bydd ei hawl awtomatig i ddychwelyd i'r siambrau'n dirwyn i ben oni fydd yr absenoldeb hwnnw yn sgil genedigaethau/mabwysiadau olynol.

11. Lle mae aelodaeth siambrau'n dirwyn i ben yn rhinwedd y darpariaethau ym mharagraff 10, gall aelod ail-wneud cais i'r siambrau yn y ffordd arferol.

12. **CYTUNDEBAU YN YSTOD ABSENOLDEB**

Anogir aelod ar absenoldeb rhieniol i gadw mewn cysylltiad â'r siambrau.

13. Bydd Pennaeth Tîm Teulu, Sifil neu Drosedd y Siambrau (fel y bo'n berthnasol i aelod ar absenoldeb rhieniol) yn sicrhau bod yr aelod:

- yn cael cynnig cyfleoedd i wneud gwaith priodol os gofynnir am hyn ac
- yn cael ei wahodd i fynychu digwyddiadau hyfforddiant, achlysuron cymdeithasol, digwyddiadau marchnata a chyfarfodydd siambrau ac
- yn destun ymgynghoriad ar unrhyw faterion sylweddol sy'n effeithio ar ymarfer y siambrau
- yn cael cymorth gydag ailsefydlu eu hymarfer ar ddychwelyd i'r gwaith gan gynnwys (lle gofynnir) trefnu cyfarfod gyda'r clerc pertnasol cyn pen 2 wythnos cyn i'r aelod ddychwelyd i'r gwaith.

14. Nid yw trefniadau gweithio anffurfiol yn ystod cyfnod o absenoldeb rhieniol yn effeithio ar hawl yr aelod i gyfnod 6 mis am ddim o'r Ffi Sefydlog ar yr amod bod y Pennaeth Siambrau'n cael gwybod am drefniadau'r aelod

sy’n cymryd absenoldeb a’i fod yn fodlon nad yw lefel y gwaith sy’n cael ei wneud yn golygu dychwelyd i’r gwaith.

15**. DYCHWELYD O GYFNOD ABSENOLDEB**

Polisi Siambrau Angel yw galluogi rhieni i weithio llai o oriau wrth ddychwelyd o gyfnod o absenoldeb rhieniol. Dylid trafod hyn gyda phwyllgor gwaith a chlercod y siambrau.

16. Dylai unrhyw aelod sy’n dymuno gwneud cwyn mewn perthynas â thorri’r polisi hwn gysylltu â Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Siambrau yn y lle cyntaf.

17. Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Siambrau yw Sara Lewis. Y rhif ffôn cysylltu yw 01792 464623. Hi yw’r cyswllt ar gyfer pob ymholiad yn ymwneud â’r polisi hwn.

18. Mabwysiadwyd y polisi hwn ar 1 Ionawr 2013 a bydd yn cael ei adolygu bob 2 flynedd.